# Yr her:

Fel mae pawb yn dweud, mae'r rhain mewn gwirionedd yn amseroedd digynsail nad yw neb yn fyw heddiw erioed wedi'u profi o'r blaen. Yn y dyfodol, bydd plant mewn ysgolion yn dysgu am bellhau cymdeithasol, cloi i lawr a'r coronafirws yn ystod gwersi hanes.

Felly beth am greu darn o hanes trwy greu capsiwl amser Covid-19?




## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych chi wedi mwynhau yn ystod y cyfnod yma?
- Gyda phwy ydych wedi treulio'r cyfnod yma?
- Sut ydych wedi teimlo yn ystod y cyfnod yma?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf?
- Sut mae pethau gartref yn wahanol nawr i sut roedden nhw ar ddechrau 2020?
- Ydych chi wedi gwneud rhywbeth newydd yn ystod y cyfnod yma?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Capsiwl Amser (Bl 5 & 6 )

Rhaid gwneud... / Must do...

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • **Ymarfer Tablau Mathemateg** (cofiwch i ddefnyddio TT Rockstars a J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)<br>Bl 5 a 6 - Tabl 2 – 12<br><br>**** NEWYDD! **** Blwyddyn 5 a 6 – Cardiau her - Estroniaiad o'r gofod a Problemau yn ymwneud a mesur 5 neu 6 ****<br><br>**Adio a thynnu**<br><br>Bl 5 i ddefnyddio rhifau 4 digid ee 3, 498 + 2,538 = / 5,794 – 3, 562<br><br>Bl 6 i ddefnyddio rhifau 4 digid a degolion e.e. 4.6 + 2.3 / 7.9 -3.2<br><br>**Lluosi a rhannu gyda 10, 100 a 1000**<br><br>Bl 5 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 280, 490,450, 654<br><br>Bl 6 i ddefnyddio rhifau 3 digid a degolion ee 456,732, 23.5<br><br>Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd | Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.<br>Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. |

| | | |
|---|---|---|
| | Darllen yr amser fesul munud.<br><br>• Faint o amser mae rhywbeth yn para? ee. Pa mor hir mae rhaglenni teledu? - edrych ar amser dechrau a gorffen. Pa mor hir mae hi'n cymryd i goginio rhywbeth? Amcangyfrifpa mor hir mae gweithgareddau pob dydd yn eu cymryd.<br>• | |
| Dylech wneud... / Should do... | | |
| Gorsaf Iaith | Cyfri a Chyfrifo | Cwtsh Creadigol |
| ⭐ Cwblhewch y daflen 'Capsiwl Amser'.<br>Peidiwch a phoeni os na allwch argraffu'r daflen. Cyflwynwch eich gwaith ar Word neu ar J2e5. | ⭐ Creu linell amser o ddigwyddiadau personol. Dechreuwch o'ch dyddiad geni hyd heddiw. Cewch ddefnyddio lluniau, geiriau. Cofiwch nodi y dyddiad a bod y llinell yn y drefn gronolegol. | ⭐ Ewch ati i greu capsiwl amser. Defnyddiwch botel neu focs. Gall hyn fod am y cyfnod Covid yma (neu, Flwyddyn 6, am eich cyfnod yn Ysgol Parc y Tywyn.) Casglwch luniau, erthyglau papur newydd, "screen shots" dillad ayyb. Addurnwch eich capsiwl. |
| ⭐⭐ Ysgrifennwch lythyr I'ch athro nesaf yn esbonio am eich hanes chi yn Ysgol Parc y Tywyn. Soniwch am eich profiadau, eich ffrindiau, eich gwersi neu unrhywbeth arall sydd angen iddynt i wybod. Cofiwch wneud eich profiadau i swnio'n ddiddorol ac yn werth eu darllen!<br>Byddwn yn trafod hwn yn y dosbarth ond defnyddiwch y wefan yma i'ch hatgoffa am ffurf llythyr.<br>http://www.bbc.co.uk/cymru/tacteg/cymraeg/ca2/llythyr/gweithgaredd/dalenffeithiau/act04.shtml | ⭐⭐ Mesurwch aelodau o'ch teulu (rownd ei pen, rhychwant llaw, braich, coes, taldra ac unrhyw mesur arall) Mewnbynwch y data i Excel. Troswch cm i mm a cm i m. Beth am m i mm? | ⭐⭐ Edrychwch ar y llyfryn "Capsiwl Covid" Ewch ati i lenwi tudalennau neu creu rhai tebyg eich hun. Beth am roi y tudalennau yn eich capsiwl amser? |
| ⭐⭐⭐ Ysgrifennu hunangofiant. Cyflwynwch eich gwaith ar ffurf paragraffau gyda pob un yn sôn am bethau gwahanol, e.e. 1. manylion personol – enw, oed, ayb. 2. eich teulu, 3. eich diddordebau, 4. unrhywbeth arall. | ⭐⭐⭐ Edrychwch ar y cardiau Amserlenni. Atebwch y cwestiynau. | ⭐⭐⭐ Edrychwch ar waith celf Covid - Beth am greu llun / collage i gynrychioli yr |

| | | |
|---|---|---|
| Cofiwch eich bod yn defnyddio llawer o ddisgrifiadau a theimladau lle'n briodol.<br>(Taflen 'Amdanaf i' fel templed i helpu). | | amser Covid yma ( neu, blwyddyn 6, o'ch amser yn Ysgol Parc y Tywyn?) Gall hyn gynnwys symbolau pwysig i'r amser ee. enfys, emosiynau, teulu, eich hoff bethau. Gallwch ddefnyddio unrhyw ddefnyddiau hoffech – paent, pensil, deunydd collage. |
| Gallaf wneud... / Can do... | | |
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'Mathsfactor'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |